Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 1188 (Cy. 242)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) (Diwygio) 2018

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011 (O.S. 2011/991 (Cy. 145)) er mwyn adlewyrchu'r darpariaethau yn Rheoliad (EU) Rhif 653/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 o ran adnabod anifeiliaid buchol yn electronig a labelu cig eidion (OJ Rhif L 189, 27.6.2014, t. 33).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn gan fod y diwygiadau o natur dechnegol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 1188 (Cy. 242)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Tachwedd 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *16 Tachwedd 2018* |
| *Yn dod i rym* | *7 Rhagfyr 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion gwneud rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â mesurau sy'n gysylltiedig â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol bwyd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cynnal ymgynghoriad agored a thryloyw â'r cyhoedd fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu egwyddorion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), ac maent yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) (Diwygio) 2018.

(**1**) O.S. 2005/1971. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**3**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) 2017/228 (OJ Rhif L 35, 10.2.2017, t. 10).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 7 Rhagfyr 2018.

**Diwygio Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011**

**2.** Mae Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r rheoliadau a ganlyn.

**Diwygio rheoliad 2**

**3.** Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn is-baragraff (a), ar y diwedd mewnosoder ", fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 653/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**2**)";

(b) yn is-baragraff (c), yn lle'r geiriau o "Rhan I" hyd at "1234/2007" rhodder "Rhan 1 o Atodiad 7 i Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol(**3**)"; ac

(c) yn is-baragraff (d), ar y diwedd mewnosoder ", fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 565/2013(**4**)".

**Diwygio rheoliad 4**

**4.** Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (1)—

  (i) yn is-baragraff (a), hepgorer paragraffau (vii) ac (viii); a

  (ii) yn is-baragraff (c), yn y geiriau cyn paragraff (i), yn lle'r geiriau o "Reoliad" hyd at "1234/2007" rhodder "Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol";

(b) ym mharagraff (2), yn lle'r geiriau o "pwynt IV(2)" hyd at "1234/2007" rhodder "pwynt 4(2) o Ran 1 o Atodiad 7 i Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol".

---

(**1**) O.S. 2011/991 (Cy. 145), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/3270 (Cy. 320).

(**2**) OJ Rhif L 189, 27.6.2014, t. 33.

(**3**) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 671, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 2017/2393 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 350, 29.12.2017, t. 15).

(**4**) OJ Rhif L 167, 18.6.2013, t. 26.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
15 Tachwedd 2018